

Cyflwyniad gan Gynghrair Polisi Bwyd Cymru: Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Crynodeb:

Rydym wrth groesffordd o ran y ffordd yr ydym ni, y genedl, yn ein bwydo ein hunain. Bydd y ffordd y byddwn yn cynhyrchu ein bwyd a'r ffordd y byddwn yn ei fwyta yn y dyfodol yn chwarae rhan enfawr wrth bennu pa mor llwyddiannus y byddwn wrth i ni fynd i'r afael â'r newidiadau digynsail sy'n ein hwynebu yn nhermau'r argyfwng newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Y gwir amdani yw bod cynhyrchu bwyd yn diffinio'r berthynas rhwng ein cefn gwlad a natur. Mae amaethyddiaeth yn unig yn gyfrifol am 16% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, ac, yn y degawdau diwethaf, rydym wedi bod yn dyst i ddirywiad enbyd ym mhoblogaeth ac amrywiaeth bywyd yn ein cefn gwlad, ein hafonydd a'n moroedd.

Mae penodi Gweinidog Newid Hinsawdd a Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn gam arwyddocaol a chalonogol iawn o ran cydnabod graddfa a brys yr heriau sy'n ein hwynebu. Er hynny, mae'n destun pryder nad oes yna gyfeiriad uniongyrchol at fwyd a ffermio yn llythyr y Gweinidog, dyddiedig 30 Gorffennaf 2021, ynghylch Blaenoriaethau'r Llywodraeth mewn perthynas â'r Newid yn yr Hinsawdd. Mae bwyd yn fater mor sylfaenol fel bod cyfrifoldebau'n pontio nifer o adrannau'r llywodraeth, ond, yn nhermau'r newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd yn gyffredinol, mae'n eistedd ar frig yr agenda fyd-eang gyda'r consensws clir na allwn ddechrau mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu heb wneud newid radical i'r ffordd yr ydym yn ein bwydo ein hunain. Felly, mae'n rhaid i hyn fod yn un o'n prif flaenoriaethau yng Nghymru os yw ein hymateb am fod yn effeithiol ac yn gredadwy.

Cyd-destun:

O ran systemau sy'n gorfod newid i greu dyfodol atgynhyrchiol, bwyd yw'r man cychwyn. Yng Nghymru mae hwn yn drawsnewidiad lle mae egin gwyrdd pwysig eisoes wedi dechrau ymddangos, mae llawer iawn o waith ac ymchwil wedi cael eu gwneud, ac mae yna gronfa sylweddol o gyfalaf deallusol a phrofiad ar gael. Mae cyd-destun presennol yr argyfyngau natur a hinsawdd, y costau cynyddol a'r dioddefaint a achosir yn sgil clefydau cysylltiedig â deiet ac anghydraddoldebau o ran bwyd, yn ein gadael wrth groesffordd a gydnabyddir yn fyd-eang.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod system fwyd amrywiol a chadarn yn gofyn am gyfuniad o gynhyrchu domestig a chyffleodd i fasnachu. Fodd bynnag, y cwestiwn i ni yng Nghymru yw a oes gennym yr hyder, y creadigrwydd a'r ewyllys i wneud y newidiadau radical y mae angen eu gwneud ar fyrder i'r system bresennol er mwyn bod yn wirioneddol drawsnewidiol, meithrin cydnethedd, ac osgoi arferion bwyd-fel-arfer? I fynd i'r afael â hyn, mae angen i ni gydnabod a deall realiti'r system bresennol, sef bod yr hyn sy'n ymddangos yn rhad, mewn gwirionedd yn creu costau anghynaliadwy enfawr mewn mannau eraill o ran niwed i'r amgylchedd, a bod bwyd yn un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am wariant yn y GIG, a hynny o ganlyniad i gynnydd mewn clefydau sy'n gysylltiedig â deiet.

Perthnasedd hyn i'r Pwyllgor:

Mae ein system fwyd mewn perygl oherwydd hinsawdd sy'n newid. Mae hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at newid yr hinsawdd, gydag amaethyddiaeth yn cyfrannu tua 16% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Yn seiliedig ar ddata y DU, mae allyriadau sy'n deillio o weithgynhyrchu bwyd, cludiant a manwerthu yn cyfrif am 5.5% arall. At hynny, mae defnydd anghynaliadwy o dir yn un o ysgogwyr allweddol y broses o golli bioamrywiaeth, gyda dros 80% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth. Yn hollbwysig, ein tir a'n môr yw ein hamddiffyniad naturiol mwyaf yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, a gallai fod yn ffrind pennaf i ni o ran adfer natur. Er enghraifft, mae gosod terfynau dalfa sy'n galluogi stociau pysgod i gael eu hadfer a'u cynnal yn uwch na lefelau biomas sy'n cyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf yn hanfodol.

Mae'n hanfodol bod gennym weledigaeth ddealladwy ar gyfer cyd-destun economaidd sy'n sail i'r mesurau i lywio ffermwyr i ffwrdd oddi wrth arferion sy'n niweidiol i'r amgylchedd. Yn hynny o beth, byddem yn gofyn i'r pwyllgor fynd ati'n benodol i archwilio rôl Llywodraeth Cymru yn y canlynol:

1. Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Cadarnhaodd y Rhaglen Ddeddfwriaethol fod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Bil Amaethyddiaeth i'r Senedd yn ystod y flwyddyn Seneddol hon. Er bod hyn yn rhan o gylch gwaith yr Adran Materion Gwledig, mae'n amlwg yn eithriadol o arwyddocaol i'r hinsawdd a bioamrywiaeth, ac felly rhaid iddo hefyd fod yn flaenoriaeth i weinidogion Newid Hinsawdd a'r pwyllgor hwn. Fel arall, bydd yna berygl y bydd polisiâu anghydlynol yn cael eu llunio mewn seilios

gan Lywodraeth Cymru yn gyffredinol. Bydd y darn hollbwysig hwn o ddeddfwriaeth yn dylanwadu ar ein tirweddau, ein hecosystemau a'n cymunedau gwledig am flynyddoedd lawer i ddod. Rydym yn ystyried cydnerthed ecolegol, y broses cynhyrchu bwyd, a hyfywedd hirdymor ffermio yng Nghymru yn elfennau cyd-ddibynnol. Er enghraifft, mae amgylchedd iach yn sail i'r broses cynhyrchu bwyd ei hun. Yn hanfodol, rhaid i'r Bil Amaethyddiaeth ymateb i'r her driphlyg o ddarparu bwyd fforddiadwy a chynaliadwy o ansawdd uchel, yn ogystal ag adfer natur a chyrraedd sero-net o ran carbon. O ystyried cwmpas eang y Bil, rydym yn argymhell yn gryf bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn sicrhau bod craffu ar y Bil Amaethyddiaeth yn flaenoriaeth ar gyfer 2021-22. Dylai craffu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, sy'n debygol o fod y prif gyfrwng ar gyfer cymorth amaethyddol wrth i gynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau amaeth-amgylcheddol cysylltiedig ddod i ben yn raddol, hefyd gael lle amlwg yn rhaglen waith y ddau Bwyllgor.

2. Strategaeth Bwyd Cymunedol

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i lunio Strategaeth Bwyd Cymunedol y mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn ei groesawu fel cyfle hanfodol i gydlynu polisi bwyd ledled pob maes o'r llywodraeth, gan gynnwys iechyd, addysg, newid yn yr hinsawdd a'r economi – dull yr ydym yn ei weld yn datblygu'n llwyddiannus yng Nghymru trwy rwydwaith esblygol o Bartneriaethau Bwyd Cynaliadwy¹. Ein barn ni yw bod y trawsnewidiadau sylweddol yn y system fwyd y mae eu hangen i sicrhau bod ein cyflenwad bwyd yn fwy cydnerth, ac i ymateb i'r heriau yn yr holl feysydd hyn, hefyd yn cynnig cyfleoedd enfawr i drawsnewid economïau lleol o'r gwaelod i fyny, gan ddatblygu democratiaeth o ran bwyd a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol yng nghymunedau Cymru. Teimlwn y dylai Llywodraeth Cymru osod targedau uchelgeisiol i Gymru gynhyrchu a chyflenwi cyfran gynyddol o'i bwyd ei hun – lle bo hyn yn gwneud synnwyr o fewn paramedrau amgylcheddol – a lleihau gwastraff bwyd.

3. Caffael cyhoeddus a llwybrau i'r farchnad

Bydd y pwyllgor yn ymwybodol o'r gwaith sylweddol sy'n digwydd ledled Cymru mewn perthynas â'r economi sylfaenol a'r potensial i gynhyrchu a democrateiddio cyfoeth ar lefel leol. Mae gwariant cyhoeddus yn elfen hanfodol yn yr ymdrech hon, ac mae ganddo'r potensial hefyd i fod yn drawsnewidiol yn y system fwyd trwy gyfeirio gwariant mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael ag amcanion polisi ar yr hinsawdd, bioamrywiaeth, iechyd ac addysg, yn rhannol, o leiaf, trwy flaenoriaethu gwerth cymdeithasol yn y broses gaffael. Mae ysgogi gweithgarwch economaidd trwy gontractau cyhoeddus yn cyflwyno'r cyfle i lunio sylfaen buddsoddiad, ysgogi prif broses gynhyrchu fwy amrywiol (ym maes garddwriaeth, er enghraifft) a sbarduno proses gynhyrchu eilaidd sy'n darparu gwerth ychwanegol i'r economi leol. Trwy helpu i danysgrifennu risg a meithrin hyder fel hyn, gall yr un cadwyni cyflenwi, seilwaith adeiladu lleol (hybiau bwyd, partneriaethau bwyd, prosesu bwyd, amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned, ac ati) a modelau gweithio cydweithredol ag sy'n ymddangos hwyluso llwybrau cyflenwi byrrach i'r cyhoedd, a chyflwyno cyfleoedd newydd i farchnad y sector preifat.

Mae llythyr y Gweinidog yn amlygu'r Economi Gylchol a lleihau gwastraff yn flaenoriaeth. Gall cadwyni cyflenwi byr yn y diwydiant bwyd chwarae rôl allweddol yn hyn o beth. Gall cynlluniau bocsys llyisiau, marchnadoedd ffermwyr a dulliau gwerthu uniongyrchol eraill leihau gwastraff bwyd (o ganlyniad i werthu'n fwy ffres) a deunydd pecynnu, a'i gwneud yn haws dychwelyd ac aildefnyddio deunydd pecynnu. Mae arferion ffermio hefyd yn hanfodol, gyda systemau amaetholegol yn lleihau'r defnydd o fewnbynau allanol (megis gwrteithiau a phlaladdwyr) trwy integreiddio systemau cydau ac anifeiliaid er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau naturiol ar gyfer rheoli plâu ac ar gyfer gwrtaith².

4. Datblygu'r Sector Garddwriaeth

Mae gennym gyfle enfawr i ddatblygu'r sector garddwriaeth yng Nghymru, ynghyd â chyfrifoldeb byd-eang i wneud hynny. Ar hyn o bryd, dim ond chwarter dogn o lysiau y pen y mae Cymru'n ei gynhyrchu y dydd, a hynny ar 0.2% o'r tir, ond mae yna botensial i gynyddu hyn yn sylweddol. Mae cyfran gynyddol o gyflenwad ffrwythau a llyisiau y DU yn dibynnu mwy a mwy ar wledydd sy'n agored i effeithiau'r hinsawdd, a chynyddodd cyflenwad y DU o ffrwythau a

¹ Mae yna wyth ardal ledled Cymru sydd wedi meithrin, neu sydd wrthi'n meithrin, Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy traws-sector a gefnogir gan Synnwyr Bwyd Cymru a'r rhwydwaith Sustainable Food Places. Yn ddiweddar, dyfarnwyd statws Arian Sustainable Food Places i Bwyd Caerdydd – un o ddim ond pedwar lle yn y DU

² IPES-Food (2016) 'From uniformity to diversity: a paradigm shift from industrial agriculture to diversified agroecological systems', Panel o Arbenigwyr Rhyngwladol ar Systemau Bwyd Cynaliadwy. Ar gael yma: www.ipes-food.org

llyisiau o wledydd sy'n debygol o wynebu lefelau uchel, neu eithriadol o uchel, o brinder dŵr yn y dyfodol agos, o 40.6% i 53.7% rhwng 1987 a 2013 (Peas Please 2020).

At hynny, mae ymchwil yn awgrymu y byddai cynyddu cymeriant i bump y dydd (gan leihau cymeriant cig a siwgr ar yr un pryd) yn arwain at fuddion sylweddol i iechyd a'r amgylchedd. Byddai'n cyfrannu 10-31% at darged y Pwyllgor Newid Hinsawdd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i amaethyddiaeth a'r defnydd o dir a mawndiroedd erbyn 2050 (SHEFS 2020).

Gall garddio masnachol greu cyfleoedd sylweddol ar gyfer cyflogaeth o ardaloedd cymharol fach o dir. Ledled y DU, mae garddwriaeth yn cyfrif am gyflogaeth lawer uwch fesul hectar na ffurfiau eraill ar amaethyddiaeth: 0.23 FTE/ha o gymharu â chyfartaledd o 0.028; gyda'r gyfradd hyd yn oed yn uwch yn achos ffermydd llyisiau a ffermydd cymysg amaetholegol ar raddfa fach. Roedd astudiaeth o 69 o ffermydd amaetholegol 20 ha neu lai, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â garddwriaeth fasnachol, yn dangos cyfartaledd o 3.2 FTE/ha. Roedd hefyd yn dangos bod ffermydd cymysg amrywiol bach yn nodweddiadol yn darparu mwy o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd fesul uned o arwynebedd o gymharu â ffermydd ungnwd mwy³.

5. Cynhyrchu eilaidd a chadw gwerth

Mae'r angen i wireddu gwerth a'i gadw yng Nghymru a'i chymunedau yn fater y mae angen rhoi sylw iddo ar fyrder ac sydd wedi'i gysylltu'n agos ag allyriadau carbon. Yn gynyddol, mae mynediad at ddulliau prosesu cig (yn enwedig lladd-dai) a chynnyrch llaeth yn rhwystr rhag sefydlu cadwyni cyflenwi lleol, creadigrwydd a menter wrth gynhyrchu bwyd yn lleol, ac mae'r rheolaeth ar y rhan hon o'r gadwyn fwyd yn gorffwys yn nwylo llai a llai o gynhyrchwyr ac yn arwain at allyriadau carbon ychwanegol trwy filltiroedd bwyd diangen. Yr ateb i hyn yw cydweithredu a seilwaith sy'n eiddo i'r gymuned, gyda Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth hwyluso hyn a darparu cymorth economaidd. Dylai'r Llywodraeth hefyd fonitro a gosod targedau ar gyfer allyriadau carbon ledled y system fwyd gyfan, nid ar gyfer amaethyddiaeth yn unig.⁴

Ynglŷn â Chynghrair Polisi Bwyd Cymru:

Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn gynghrair o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n datblygu a hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer system fwyd Cymru. Trwy gydweithredu, ymgysylltu ac ymchwil, nod y Gynghrair yw:

- Cydgynhyrchu gweledigaeth ar gyfer system fwyd yng Nghymru sy'n cysylltu cynhyrchu, cyflenwi a bwyta, ac sy'n rhoi ystyriaeth gyfartal i iechyd a llesiant pobl a natur.
- Eirioli dros newid polisi er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol, argyfwng iechyd y cyhoedd, a'r cynnydd mewn ansicrwydd o ran y cyflenwad bwyd.
- Sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â pholisïau a chyfleoedd ymchwil y DU a'r system Fyd-eang ehangach.

Mae'r sefydliadau canlynol sy'n aelodau o'r Gynghrair wedi cyfrannu at yr ymateb hwn:

- [Synnwyr Bwyd Cymru](#)
- [Y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad](#)
- [Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru](#)
- [Rhwydwaith Ffermio sy'n Gyfeillgar i Natur](#)
- [Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol](#)
- [Sustainable Food Places](#)
- [Consortium Amaethyddiaeth Drefol](#)
- [WWF Cymru](#)
- Simon Wright, Wright's Food Emporium ac un o sylfaenwyr Cydweithfa Bwytai Annibynnol Cymru (WIRC)

Gallwch hefyd ddarllen y Maniffesto a baratowyd gan Gynghrair Polisi Bwyd Cymru cyn Etholiadau Senedd 2021 [yma](#).

³ Laughton, R. (2017) *A Matter of Scale: A study of the productivity, financial viability and multifunctional benefits of small farms (20 ha and less)*. Cynghrair y Gweithwyr Tir a'r Ganolfan Amaetholegol, Prifysgol Cofentri, ar gael yn: <https://landworkersalliance.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/matterofscale.pdf>

⁴ Gellir priodoli tua 21-37% o gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r system fwyd yn ôl adroddiad yr IPPC ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r rhain yn deillio o amaethyddiaeth a'r defnydd o dir, storio, cludiant, pecynnu, prosesu, manwerthu a defnyddio.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â [Katie Palmer](#), Rheolwr Rhaglen Synnwyr Bwyd Cymru ac un o sylfaenwyr Cynghrair Polisi Bwyd Cymru.